OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2020 Rhif 1246 (Cy. 281)

# YMADAEL Â'R UNDEB EWROPEAIDD, CYMRU ADDYSG, CYMRU

## Rheoliadau Cymwysterau Athrawon (Diwygio) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020

| | |
|---|---|
| *Gofynion sifftio wedi eu bodloni - - - -* | *2 Tachwedd 2020* |
| *Gwnaed - - - -* | *9 Tachwedd 2020* |
| *Gosodwyd gerbron Senedd Cymru - - - -* | *11 Tachwedd 2020* |

*Coming into force in accordance with regulation 1(2)*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan adran 132(1) a (2) o Ddeddf Addysg 2002(**1**), ac ar ôl ymgynghori â Chyngor y Gweithlu Addysg fel sy'n ofynnol gan adran 132(4)(**2**) o'r Ddeddf honno, a thrwy arfer y pwerau ym mharagraff 1 o Atodlen 2 a pharagraff 21 o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018(**3**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

Mae gofynion paragraff 4(2) o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 (sy'n ymwneud â gweithdrefn briodol y Senedd ar gyfer y Rheoliadau hyn) wedi eu bodloni.

**Enwi, cychwyn a dehongli**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cymwysterau Athrawon (Diwygio) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar ddiwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu.

(3) Yn y Rheoliadau hyn, mae i "diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu" yr ystyr a roddir i "IP completion day" yn adran 39(1) i (5) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Y Cytundeb Ymadael) 2020(**4**).

(**1**) 2002 p. 32; am ystyr "prescribed" a "regulations", *gweler* adran 212(1). Trosglwyddwyd y swyddogaethau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru o dan yr adrannau hyn i Weinidogion Cymru gan baragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32).

(**2**) Yn adran 132(4), amnewidiwyd y geiriau "Education Workforce Council" gan Ddeddf Addysg (Cymru) 2014 (dccc 5), adran 48, Atodlen 3, Rhan 1, paragraff 1(1) a (4).

(**3**) 2018 p. 16.

(**4**) 2020 p. 1.

**Diwygio Rheoliadau Cymwysterau Athrawon (Diwygio) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019**

**2.**—(1) Mae rheoliad 3(2) o Reoliadau Cymwysterau Athrawon (Diwygio) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019(**5**) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Yn is-baragraff (1)(c) o baragraff 4 a amnewidiwyd o Atodlen 2, yn lle "pharagraff 48" rhodder "pharagraff 50 neu baragraff 51".

*Kirsty Williams*

9 Tachwedd 2020

Y Gweinidog Addysg, un o Weinidogion Cymru

(**5**) O.S. 2019/444 (Cy. 107).

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud drwy arfer y pwerau a roddir i Weinidogion Cymru gan baragraff 1 o Atodlen 2 a pharagraff 21 o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 (p. 16), er mwyn ymdrin ag unrhyw fethiant yng nghyfraith yr UE a ddargedwir i weithredu'n effeithiol a diffygion eraill sy'n deillio o ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd.

Maent hefyd wedi eu gwneud drwy arfer y pwerau yn adran 132 o Ddeddf Addysg 2002 (p. 32).

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau technegol i Reoliadau Cymwysterau Athrawon (Diwygio) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019 (O.S. 2019/444 (Cy. 107)). Mae'r diwygiadau technegol hyn yn codi o ganlyniad i ddiwygiadau a wneir i Reoliadau Cydnabod Cymwysterau Proffesiynol (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2019 (O.S. 2019/312) gan Reoliadau Cymwysterau a Gwasanaethau Proffesiynol (Diwygiadau a Darpariaethau Amrywiol) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1038).

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.